# Gogledd Cymru
# Gwasanaeth Tân ac Achub

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Adroddiad Monitro Perfformiad

**Naw Mis**

**Ebrill – Rhagfyr 2022**


**Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallent gael eu newid ryw ychydig.**

**Cynnwys**


1 Pob Digwyddiad ..... 1
2 Tanau yn ôl Categori a Chymhelliant ..... 3
3 Prif Danau, yn ôl Math o Eiddo a Chymhelliant ..... 5
4 Tanau damweiniol mewn cartrefi ..... 6
5 Marwolaethau ac anafiadau o danau damweiniol mewn cartrefi ..... 8
6 Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi (TDC) ..... 9
7 Galwadau Diangen ..... 11
8 Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig (DGA) ..... 13
9 Gwrthdrawiadau ar y Ffordd a Thynnu'n Rhydd / Rhyddhau ..... 15
10 Monitro yn erbyn Amcan Gwella a Llesiant 1: ..... 17
11 Argaeledd Arfaethedig 20 Gorsaf ..... 19
Geirfa ..... 20

## 1 Pob Digwyddiad

**1.1** Yn ystod naw mis cyntaf blwyddyn ariannol 2022/23, aeth y Gwasanaeth at 4,656 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen, cynnydd o 16.7% ers yr un cyfnod yn 2021/22.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y flwyddyn hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | 2022-23 | 1,575 | 1,876 | 1,205 | | 4,656 | ↑ 16.7% | 3,779 | ↑ 23.2% |
| | 2021-22 | 1,322 | 1,415 | 1,254 | | 3,991 | | | |
| Cyfanswm y tanau | 2022-23 | 577 | 718 | 337 | | 1,632 | ↑ 16.4% | 1,437 | ↑ 13.6% |
| | 2021-22 | 575 | 480 | 347 | | 1,402 | | | |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | 2022-23 | 327 | 371 | 262 | | 960 | ↑ 37.1% | 534 | ↑ 79.8% |
| | 2021-22 | 152 | 233 | 315 | | 700 | | | |
| Cyfanswm y galwadau diangen | 2022-23 | 671 | 787 | 606 | | 2,064 | ↑ 9.3% | 1,808 | ↑ 14.2% |
| | 2021-22 | 595 | 702 | 592 | | 1,889 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Naratif**

**Cynnydd o ran tanau** – Braf yw gweld gostyngiad yn Ch3 o'i gymharu â Ch1 a Q2. Priodolir y cynnydd sylweddol mewn digwyddiadau tân i'r haf eithriadol o boeth, gan ddangos cynnydd o 195 o ddigwyddiadau (13.6%) o'i gymharu â chyfartaledd y tair blynedd flaenorol.

**Cynnydd mewn LTA (annomestig)** – Rydym yn ymwybodol o'r cynnydd mewn LTA mewn lleoliadau annomestig. Daw'r rhan fwyaf o'r galwadau hyn o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) (nifer o resymau pam iddynt weithredu). Rydym yn parhau i weithio gyda BIPBC i'w lleihau. Bu cynnydd hefyd yn nifer y tanau domestig (cartrefi) yr aethpwyd atynt oherwydd LTA a chyfeirir at hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

**DGA yn cynyddu** – Gostyngiad sylweddol yn ystod Ch3 o'i gymharu â Ch2. Mae'r cynnydd cyffredinol o ganlyniad i newid ym mholisi'r sefydliad yn ymwneud â mynd i Ddigwyddiadau Gwasanaeth Arbennig (DGA); gan wneud criwiau'n fwy gweladwy yn y gymuned.


## 2 Tanau yn ôl Categori a Chymhelliant

**2.1** Mae cyfanswm o 1,632 o danau wedi eu mynychu; cynnydd o 16.4% ers 1,402 yn 2021/22.

**2.2** **Prif Danau –** Roedd gostyngiad o 3.8% mewn prif danau, o 680 i 654 o'i gymharu â chwe mis cyntaf 2021/22.

**2.3** **Tanau eilaidd –** Roedd cynnydd o 40.3% mewn tanau eilaidd, gan gynyddu o 647 i 908.

**2.4** **Tanau simnai –** Roedd gostyngiad o 6.7% mewn tanau simnai, o 75 i 70, o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2021/22.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Danau | 2022-23 | 226 | 235 | 193 | | 654 | ↓ 3.8% | 680 | ↓ 3.8% |
| | 2021-22 | 251 | 229 | 200 | | 680 | | | |
| Tanau Eilaidd | 2022-23 | 332 | 476 | 100 | | 908 | ↑ 40.3% | 672 | ↑ 35.1% |
| | 2021-22 | 293 | 244 | 110 | | 647 | | | |
| Tanau Simnai | 2022-23 | 19 | 7 | 44 | | 70 | ↓ 6.7% | 85 | ↓ 17.6% |
| | 2021-22 | 31 | 7 | 37 | | 75 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Naratif**

Mae prif danau bellach yn is na'r cyfartaledd tair blynedd. Priodolir y cynnydd mewn tanau eilaidd damweiniol a thanau eilaidd bwriadol i'r haf eithriadol o boeth yn y DU. I gymharu, roedd 2018/19 hefyd yn haf poeth a sych iawn yng Ngogledd Cymru.

Cynyddodd y Tanau Simne 7 yn Ch3 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2021/22. Nid yw hyn yn annisgwyl yn dilyn y cynnydd ym mhrisiau tanwydd cyfleustodau a'r defnydd cynyddol o danau agored a thanau llosgi coed. Mae GTAGC wedi bod yn gweithio gyda Scottish Power (SP) ac asiantaethau eraill ar ddarparu 'pecynnau gaeaf' i drigolion.


**Camau i gefnogi cymunedau a lleihau digwyddiadau tân:**

- Parhau i ddarparu Archwiliadau Diogel ac Iach (ADI) ar draws Gogledd Cymru yn unol â'n strategaeth bresennol;
- Parhau i weithio gyda phartneriaid strategol i nodi risgiau posibl i leihau digwyddiadau tân bwriadol;
- Mae cynlluniau ymyrraeth cynnau tanau bwriadol wedi'u hwyluso'n fewnol gan Pentre Peryglon;
- Mae Bwrdd Tanau Gwyllt Newydd i Gymru wedi'i sefydlu a Siarter Gwyllt i Gymru Gyfan wedi'i drafftio i gefnogi'r ymdrech i leihau nifer y tanau eilaidd damweiniol a bwriadol;
- Aeth timau atal i sioeau amaethyddol gan gynnwys sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf 2022 i godi proffil effeithiau Tanau Gwyllt yng Ngogledd Cymru;
- Grŵp Llywio Ymgyrch (CSG) yn gweithio gyda Chyfathrebu Corfforaethol i barhau i hyrwyddo negeseuon diogelwch a thanau gwyllt yn rhagweithiol ar draws pob platfform cyfryngau;
- Cyfranogiad sylweddol mewn digwyddiadau Coelcerth a Thân Gwyllt cymunedol ar draws ardal y gwasanaeth.

## 3 Prif Danau, yn ôl Math o Eiddo a Chymhelliant

**3.1** Yn ystod y cyfnod adrodd, cafodd 37 o danau cynradd eu cynnau'n fwriadol mewn adeiladau di-breswyl, o'i gymharu â 45 yn ystod hanner cyntaf 2021/22.

**3.2** Yng Ngharchar y Berwyn, digwyddodd 13 tân bwriadol, o'i gymharu â 22 yn yr un cyfnod yn 2021/22.





| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl brif danau bwriadol | 2022-23 | 41 | 49 | 24 | | 114 | ↑ 0.9% | 137 | ↓ 16.6% |
| | 2021-22 | 40 | 42 | 31 | | 113 | | | |
| Yr holl brif danau damweiniol | 2022-23 | 185 | 186 | 169 | | 540 | ↓ 4.8% | 543 | ↓ 0.6% |
| | 2021-22 | 211 | 187 | 169 | | 567 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 4 Tanau damweiniol mewn cartrefi

**4.1** Aeth y Gwasanaeth at 258 o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y cyfnod adrodd, 56 (17.8%) yn llai nag yn ystod yr un cyfnod yn 2021/22 (314), a 10.4% yn is na'r cyfartaledd tair blynedd o 288.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 2022-23 | 81 | 80 | 97 | | 258 | ↓ 17.8% | 288 | ↓ 10.4% |
| | 2021-22 | 113 | 95 | 106 | | 314 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Naratif**

Er bod nifer y TDC yn Ch3 yn llai na Ch3 yn y flwyddyn ariannol flaenorol (106 i 97), y prif gyfranwyr at y cynnydd yn ystod Ch3, o'i gymharu â Ch2 y cyfnod adrodd, oedd:

- Eitemau llosgadwy sy'n rhy agos at ffynhonnell gwres (neu dân) o 12 yn Ch2 i 17 yn Ch3;
- Nam mewn offer neu beiriant tân o bump yn Ch2 i 13 yn Ch3.

**Y camau i gefnogi cymunedau a lleihau tanau damweiniol mewn cartrefi (TDC):**

- Parhau i weithio gyda grwpiau celcio rhanbarthol i nodi pobl sydd mewn perygl;
- Parhau i dderbyn atgyfeiriadau blaenoriaeth uchel gan asiantaethau partner;
- Menter ar y cyd rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Phrifysgol Bangor i ffitio gwarchodwyr stôf mewn llety myfyrwyr i leihau tanau coginio;
- Parhau i gefnogi Diwrnodau Agored yr Orsaf (gan gynhyrchu Archwiliadau Diogel ac Iach (ADI) a rhoi cyngor ar ddiogelwch);
- Cefnogi ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol parhaus (Cymru a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion Tân (NFCC)) yn unol â calendr ein Grŵp Llywio Ymgyrchoedd (CSG) ein hunain;
- Diwrnodau allgymorth wedi’u rhedeg yn lleol ac wedi'u targedu a gefnogir gan asiantaethau allanol. Caiff taflenni eu dosbarthu mewn ardaloedd gan dimau Atal i ddarparu Archwiliadau Diogel ac Iach (Criwiau a Iechyd, Diogelwch a Lles);
- Rhoddodd ymgyrch ‘galw heibio’ Costau Byw ddiweddar yn y Rhyl gyfle i dimau Atal roi cyngor pellach ar ddiogelwch;
- Ymgyrchoedd rhagweithiol yn dilyn digwyddiadau sylweddol sy'n arwain at atgyfeiriadau ADI a sicrwydd cymunedol yn dilyn digwyddiadau;
- Mae’r bartneriaeth rhwng GTAGC a Cartrefi Conwy, a Gofal ac Atgyweirio'n parhau i nodi atgyfeiriadau blaenoriaeth uchel – rydym yn ymgysylltu â phobl fregus sy’n gadael ysbytai/lleoliadau gofal i ddarparu ymyriadau lle bo angen.
- Roedd gweithgareddau diogelwch y Nadolig yn cynnwys cefnogi banciau bwyd lleol a chyflwyno sgyrsiau diogelwch i ffoaduriaid o Wcráin.

## 5 Marwolaethau ac anafiadau o danau damweiniol mewn cartrefi

**5.1** Doedd dim marwolaethau TDC yn ystod hanner cyntaf 2022/23, o'i gymharu â thri yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Cafwyd 2 anaf difrifol a 22 mân anaf mewn tân damweiniol yn y cartref, o'i gymharu â 4 a 30 yn y drefn honno yn yr un cyfnod yn 2021/22. Gostyngodd nifer y gwiriadau rhagofalus o 27 i 16, tra roedd nifer y bobl oedd angen cymorth cyntaf yn y fan a'r lle wedi gostwng hefyd o 35 i 21.


| **Difrifoldeb yr anaf** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwiriadau Rhagofalus | 10 | 14 | 23 | 27 | 16 |
| Cymorth Cyntaf | 17 | 32 | 21 | 35 | 21 |
| Mân Anafiadau | 11 | 20 | 19 | 30 | 22 |
| Anafiadau Difrifol | 2 | 3 | 2 | 4 | 2 |
| Marwolaethau | 5 | 3 | 4 | 3 | 0 |
| **Cyfanswm** | 45 | 72 | 69 | 99 | 61 |

| **Categori** | **Blwyddyn** | **Ch.1** | **Ch.2** | **Ch.3** | **Ch.4** | **Cyfanswm y cyfnod hyd yma** | **Newid hyd yma yn ystod y flwyddyn** | **Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol** | **Newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2022-23 | 10 | 37 | 14 | | 61 | ↓ 35 | 77 | ↓ 16 |
| | 2021-22 | 43 | 23 | 30 | | 96 | | | |
| Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2022-23 | 0 | 0 | 0 | | 0 | ↓ 3 | | |
| | 2021-22 | 3 | 0 | 0 | | 3 | | | |

## 6 Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi (TDC)

**6.1** Roedd larymau mwg/gwres yn bresennol yn y mwyafrif o TDC, er na wnaeth pob un weithredu. Mewn 32 o'r TDC, nid oedd synhwyrydd wedi'i osod.

**6.2** Yn 258 o'r TDC, roedd 224 wedi'u cyfyngu i'r ystafell darddiad, yr eitem a daniwyd gyntaf, neu roedd difrod gwres/mwg yn unig.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Larwm mwg wedi osod ac wedi seinio a rhoi rhybudd | 2022-23 | 36 | 44 | 49 | | 129 | ↓ 16.8% | 138 | ↓ 6.5% |
| | 2021-22 | 54 | 46 | 55 | | 155 | | | |
| Larwm mwg wedi'i osod, wedi seinio ond heb roi rhybudd | 2022-23 | 17 | 4 | 10 | | 31 | ↓ 44.6% | 51 | ↓ 39.2% |
| | 2021-22 | 20 | 20 | 16 | | 56 | | | |
| Larwm mwg heb seinio | 2022-23 | 22 | 19 | 25 | | 66 | ↑ 4.8% | 61 | ↑ 8.2% |
| | 2021-22 | 26 | 16 | 21 | | 63 | | | |
| Larwm mwg heb ei osod | 2022-23 | 6 | 13 | 13 | | 32 | ↓ 20.0% | 38 | ↓ 15.8% |
| | 2021-22 | 13 | 13 | 14 | | 40 | | | |


*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Camau a gymerwyd i gefnogi cymunedau drwy gynyddu nifer y bobl sydd â larymau mwg ac addysg diogelwch:**

- Mae'r Gwasanaeth yn parhau â’r nod o ddarparu tua 20,000 o Archwiliadau Diogel ac Iach (ADI) eleni;
- Parhau i weithio gyda phartneriaid i nodi’r bobl fwyaf bregus yn ein cymunedau a darparu cyngor ac ymyriadau addas iddynt;
- Parhau â’r addysg a’r ymwybyddiaeth o osod synwyryddion mwg yn gywir yng nghartrefi pobl er mwyn atal achosion actifadu diangen a galwadau diangen;
- Mae GTAGC wedi parhau i hyrwyddo profi larymau mwg yn rheolaidd gan ddefnyddio pob platfform cyfryngau;
- Sicrhau bod ein cyngor yn nodi manylion a’r camau i'w cymryd os yw tân yn dechrau neu os yw synhwyrydd mwg yn cael ei weithredu yn y cartref.
- Parhaodd addysgwyr i hybu perchnogaeth a phrofi larymau mwg fel rhan o'r ddarpariaeth ar draws ysgolion Gogledd Cymru.

## 7 Galwadau Diangen

**7.1** Yn naw mis cyntaf 2022/23 roedd 2,064 o alwadau diangen; cynnydd o 9.3% o 1,889 yn yr un cyfnod yn 2021/22. Bu cynnydd o 13.0% mewn tanau damweiniol yn y cartref o 1,059 i 1,197. Cynyddodd galwadau diangen diffuant 3.6% o 800 i 829.




| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Larymau Tân Awtomatig | 889 | 934 | 917 | 1,059 | 1,197 | 970 |
| Didwyll | 842 | 785 | 834 | 800 | 829 | 806 |
| Maleisus | 30 | 32 | 32 | 30 | 38 | 31 |
| Cyfanswm | 1,761 | 1,751 | 1,783 | 1,889 | 2,064 | 1,808 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl alwadau diangen | 2022-23 | 671 | 787 | 606 | | 2,064 | ↑ 9.3% | 1,808 | ↑ 14.2% |
| | 2021-22 | 595 | 702 | 592 | | 1,889 | | | |
| Larymau Tân Awtomatig (LTA) | 2022-23 | 417 | 420 | 360 | | 1,197 | ↑ 13.0% | 970 | ↑ 23.4% |
| | 2021-22 | 311 | 403 | 345 | | 1,059 | | | |
| Galwadau diangen diffuant | 2022-23 | 240 | 352 | 237 | | 829 | ↑ 3.6% | 806 | ↑ 2.9% |
| | 2021-22 | 278 | 287 | 235 | | 800 | | | |
| Maleisus | 2022-23 | 14 | 15 | 9 | | 38 | ↑ 26.7% | 31 | ↑ 22.6% |
| | 2021-22 | 6 | 12 | 12 | | 30 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Naratif**

- **2,064** Cyfanswm y Galwadau Diangen yr aethpwyd atynt (cynnydd o 9.3%);
- **1,197** Cyfanswm y galwadau tân oherwydd cyfarpar (cynnydd o 13.0%);
- Roedd galwadau tân oherwydd 'cyfarpar' yn cynrychioli 58% o gyfanswm y Galwadau Diangen.

**Yr hyn rydym yn ei wneud:**


- **Larymau Tân Awtomatig (LTA) mewn anheddau** – Mae'r Gwasanaeth yn parhau i weithio i gadw'r bobl fwyaf bregus yn ddiogel yn y gymuned drwy ymgyrchoedd Atal wedi'u targedu a gweithio gyda darparwyr gofal drwy osod systemau llinell ofal. Rhaid i ni dderbyn y gall hyn gynyddu nifer y LTA rydym yn mynd atynt, ond bydd pob un yn gyfle i ni ddarparu rhagor o gyngor diogelwch sydd weithiau'n bwrpasol. Byddwn yn parhau i fonitro LTA mewn cartrefi y flwyddyn nesaf drwy'r camau canlynol:
    - Parhau i adolygu'r log dyddiol o ddigwyddiadau gan Reolwyr Partneriaeth yn yr ardaloedd i sylwi ar unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg a/neu alwadau mynych i'r un eiddo;
    - Parhau i weithio gyda darparwyr llinell gofal gan sicrhau bod staff sy'n monitro galwadau'n cael yr hyfforddiant priodol ac adolygu hynny os oes angen e.e. dechreuwyr newydd;
    - Parhau i roi cyngor diogelwch pan fydd GTAGC yn mynd at ddigwyddiadau LTA mewn cartrefi;
    - Parhau i wneud atgyfeiriadau i asiantaethau allanol pan gaiff ei nodi bod angen cymorth arbenigol pellach.

- **LTA mewn safleoedd di-breswyl** – Rydym yn parhau i weithio â BIPBC i leihau'r cychwyniadau hyn, ac mae gan BIPBC gynllun ar waith i leihau nifer y LTA yr ydym yn eu monitro.

- **LTA mewn safleoedd 'preswyl arall' –** Fel uchod, mae gwaith yn parhau i gefnogi BIPBC i leihau cychwyn LTA yn ddiangen mewn lleoliadau gofal. Rydym hefyd yn gweithio gyda sefydliadau addysg uwch i leihau'r LTA hyn drwy ymgyrchoedd Atal wedi'u targedu.

## 8 Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig

**8.1** Bu cynnydd o 37.1% mewn digwyddiadau gwasanaeth arbennig i 960 yn ystod naw mis cyntaf 2022/23, o'i gymharu â 700 yn yr un cyfnod yn 2021/22. Bu cynnydd o 14.2% o 155 i 177 mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, tra gwnaeth digwyddiadau 'Heblaw Gwrthdrawiadau ar y ffordd' gynyddu 43.7%, o 545 i 783.




| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Prosiectau blaenorol (Tîm Cymorth Cymunedol, Cyd-ymateb) | 120 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Heblaw gwrthdrawiadau (ac eithrio prosiectau) | 320 | 343 | 334 | 545 | 783 |
| GRFfs | 163 | 144 | 81 | 155 | 177 |
| Cyfanswm | 603 | 487 | 415 | 700 | 960 |

| **Categori** | **Blwyddyn** | **Ch.1** | **Ch.2** | **Ch.3** | **Ch.4** | **Cyfanswm y cyfnod hyd yma** | **% y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn** | **Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol** | **% y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr holl Ddigwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | 2022-23 | 327 | 371 | 262 | | 960 | ↑ 37.1% | 534 | ↑ 79.8% |
| | 2021-22 | 152 | 233 | 315 | | 700 | | | |
| Gwrthdrawiadau ar y Ffordd (RTC) | 2022-23 | 53 | 65 | 59 | | 177 | ↑ 14.2% | 127 | ↑ 39.4% |
| | 2021-22 | 31 | 56 | 68 | | 155 | | | |
| Heblaw Gwrthdrawiadau ar y Ffordd | 2022-23 | 274 | 306 | 203 | | 783 | ↑ 43.7% | 407 | ↑ 92.4% |
| | 2021-22 | 121 | 177 | 247 | | 545 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.


**Naratif**

Aethpwyd at **960** o ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig (cynnydd o 37.1%);
a **783** o alwadau heblaw Gwrthdrawiadau ar y Ffordd (ac eithrio prosiectau) (cynnydd o 43.7%).

- Mae'r rheswm dros bresenoldeb cynyddol GTAGC mewn digwyddiadau gwasanaeth arbennig (DGA) yn ganlyniad i benderfyniad ymwybodol a gymerwyd gan y sefydliad i newid ei ddull gweithredu a bod yn fwy rhagweithiol wrth ymateb i geisiadau am gymorth na fyddai fel arfer yn gofyn am ymateb gan y Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae hyn wedi arwain at fod yn fwy gweladwy yn y gymuned.
- Mae nifer y gwrthdrawiadau ar y ffordd yr aethpwyd wedi cynyddu ac roeddent yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd. Dylid nodi bod nifer yr ymwelwyr â'r ardal, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf, wedi bod yn sylweddol yn ystod 2022 (yn dilyn llacio holl gyfyngiadau Covid-19).
- Parhaodd 'Stori Olivia' i gael ei gyflwyno ar y cyd â HGC. Mae dros 2,500 o bobl ifanc bellach wedi cael y cyflwyniad.
- Mae GTAGC yn rhanddeiliad ac yn gyfranogwr allweddol yng Ngrŵp Diogelwch ar y Ffordd Gogledd Cymru, ac yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno ymyriadau lle bo angen.

## 9 Gwrthdrawiadau ar y Ffordd a Thynnu'n Rhydd / Rhyddhau

**9.1** O'r 177 gwrthdrawiad traffig ar y ffordd yr aethpwyd atynt yn y cyfnod adrodd, roedd 54 (30.5%) yn ymwneud â'r Gwasanaeth yn defnyddio offer i ryddhau o leiaf un person wedi'i anafu o'r cerbyd. Er bod 97 o ddigwyddiadau wedi arwain at anafiadau, dim ond mân anafiadau a gafodd y mwyafrif ohonynt.




| | |
|---|---|
| **177** | o wrthdrawiadau ar y ffordd |
| **97** | o ddigwyddiadau lle'r oedd pobl wedi dioddef anaf |
| **54** | o ddigwyddiadau lle bu'n rhaid torri pobl allan / rhyddhau pobl |

| **Difrifoldeb anafiadau *** | **Nifer y bobl** |
|---|---|
| Archwiliad Rhagofalus | 24 |
| Cymorth Cyntaf | 17 |
| Mân-anafiadau | 70 |
| Anafiadau Difrifol | 47 |
| Marwolaethau | 8 |

*Pan fo anafiadau oherwydd gwrthdrawiadau ar y ffordd yn digwydd – caiff y rhain eu cofnodi yn y system gofnodi fewnol yn yr un categori ag anafiadau tân

**Naratif**

Aethpwyd at **177** o wrthdrawiadau ar y ffordd, cynnydd o 14.2% o 155;
Roedd **54** (30.5%) yn ymwneud â thorri pobl allan / rhyddhau.

Er gwaetha'r cynnydd yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd, bu gostyngiad yn y ganran o ddigwyddiadau lle bu'n rhaid i griwiau GTAGC ryddhau pobl. Y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr (traffig) yng Ngogledd Cymru yn ystod haf 2022 oedd y rheswm tebygol dros y cynnydd mewn gwrthdrawiadau ar y ffordd.

**Camau a gymerwyd i leihau nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd:**


- Parhaodd 'Stori Olivia' i gael ei gyflwyno ar y cyd â HGC. Mae dros 2,500 o bobl ifanc bellach wedi cael y cyflwyniad;
- Parhaodd staff Atal GTAGC i fynychu Grŵp Diogelwch ar y Ffordd Gogledd Cymru;
- Mae GTAGC, mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) a HGC, yn rhan o'r ymyrraeth 'Ffrindiau Peryg Bywyd' sy'n disgrifio canlyniadau gwrthdrawiadau ar y ffordd (marwolaethau ac anafiadau difrifol).

## 10 Monitro yn erbyn Amcan Gwella a Llesiant 1:

1.1 Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi a chadw'n ddiogel os ydyn nhw'n digwydd.

### 10.1 Archwiliadau Diogel ac Iach

Cwblhaodd y Gwasanaeth 13,487 o Archwiliadau Diogel ac Iach, gyda 4,363 (32.3%) ohonynt yn cael eu cynnal mewn ymateb i atgyfeiriad gan asiantaeth bartner.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn | Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol | % y newid hyd yma yn ystod y flwyddyn / Cyfartaledd y 3 blynedd flaenorol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % yr holl Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhaliwyd ac a oedd wedi dod drwy atgyfeiriad gan sefydliad partner | 2022-23 | 35% | 30% | 32% | | 32% | ↓ 4 | 32% | → 0 |
| | 2021-22 | 40% | 35% | 35% | | 36% | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

**Naratif**


Cwblhawyd **13,487** o Archwiliadau Diogel ac Iach (ADI):-
Roedd **4,682** (34.7%) yn atgyfeiriadau Blaenoriaeth Uchel, gyda 2,633 yn dod gan asiantaeth bartner;
Roedd **2,394** (17.7%) yn ADI Blaenoriaeth Canolig;
Roedd **6,411** (47.6%) yn ADI Blaenoriaeth Isel.

**Camau a gymerwyd i wella perfformiad a sylwadau:**

- Dychwelyd i lefel y gweithgarwch ADI cyn covid-19 yn dilyn gwaith ail-ymgysylltu cadarnhaol gyda'n hasiantaethau partner;
- Parhau i gyflwyno ADI fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad, gan gynnwys dros y ffôn, lle bo'n briodol;
- Parhau i ddarparu ymgyrchoedd Atal a chyngor diogelwch yn unol â'n calendr ymgyrchoedd Grŵp Llywio Ymgyrchoedd (CSG) a Chyfathrebu Corfforaethol;
- Parhau i ail-ymgysylltu aelodau blaenoriaeth uchel blaenorol y gymuned a chynnwys yr holl griwiau Amser Cyflawn, Criw Dydd, a chriwiau Gwledig Amser Cyflawn;
- Parhau i ddarparu ymyrraeth bwrpasol i'r rhai mwyaf agored i niwed yn y gymuned;
- Mae’r amrywiaeth o ymyriadau a roddir i feddianwyr yn parhau i dyfu, gan gynnwys offer arloesol fel Gardiau Stôf.

## 11 Argaeledd Arfaethedig 20 Gorsaf

**11.1** O 275 diwrnod y cyfnod adrodd, cafodd safon argaeledd 20 gorsaf y Gwasanaeth ei gyflawni ar 260 diwrnod (94.5%) – cynnydd o 15.6% ers yr un cyfnod yn 2021/22 (225 diwrnod – 81.8%).



**Geirfa**

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn cael ei roi o dan un o dri chategori, sef prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simnai, ac sy'n digwydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, offer a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli ayyb.<br><br>Gelwir tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion yno, os oes angen achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pump neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau.<br><br>Nid yw tanau eilaidd yn ymwneud ag anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedwar peiriant tân neu lai wedi mynd atynt.<br><br>Fel arfer, tanau eilaidd yw tanau sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried – yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif danau), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb. |
| Tanau Simnai | Dyma danau mewn adeiladau sydd wedi'u meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br><br>Nid fydd tanau eilaidd yn ymwneud ag anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedwar peiriant tân neu lai wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br><br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau ar y ffordd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb;<br><br>b) Trychinebau mawr;<br><br>c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb;<br><br>ch) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau. |
| Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol) | Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond ar ôl cyrraedd y gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.<br><br>Sylwer: os bydd y peiriant tân yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau diangen – Maleisus | Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |

| | |
|---|---|
| Galwadau diangen – Diffuant (didwyll) | Dyma alwadau a wneir yn ddiffuant pan gredir bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau diangen – LTA | Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu ar ddamwain neu pan fydd larwm yn canu a rhywun yn galw'r Gwasanaeth Tân ac Achub fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad. |
| Adeilad – Cartrefi | Eiddo sy'n fan preswyl, h.y. wedi'i feddiannu gan aelwydydd, ac eithrio gwestai, hosteli a strwythurau preswyl nad ydyn yn barhaol. |
| Adeilad – Di-breswyl | Eiddo fel ysbytai, swyddfeydd, siopau, ffatrïoedd, warysau, bwytai, sinemâu, adeiladau cyhoeddus, adeiladau crefyddol, adeiladau amaethyddol, gorsafoedd rheilffordd, siediau, carchardai. |
| Adeilad – Preswyl Arall | Eiddo fel gwestai, hosteli a sefydliadau preswyl, busnesau gwely a brecwast, cartrefi nyrsio/gofal, neuaddau preswyl myfyrwyr. |
| Cerbyd (Ffordd a Thrafnidiaeth Arall) | Cerbyd ffordd, cerbyd rheilffordd, awyrennau, cwch. |
| Awyr agored | Caeau, glaswelltir, coetir, cynwysyddion sbwriel, blychau post. |
| Tanau gwyllt/tanau yn yr awyr agored | Tân mewn glaswelltir, coetir neu gnwd yr aeth 4 cerbyd neu fwy ato, neu lle bu'r Gwasanaeth yn bresennol am 6 awr neu fwy, neu lle amcangyfrifwyd bod difrod y tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr. |